

Adran A: Themâu craidd

Dyma da ni angen gwybod

Dylai dysgwyr astudio'r **ddwy** thema hyn.

Thema Graidd 5: TYWYDD, HINSAWDD AC ECOSYSTEMAU

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o achos ac effaith; cylchredau a llifoedd; dyfodol daearyddol; anghydraddoldeb; rhyng-gysylltedd (rhwng amgylcheddau dynol a ffisegol); lle; proses a newid; a graddfa wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 5.1: Newid hinsawdd yn ystod y cyfnod Cwaternaidd

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
5.1.1 Beth yw'r dystiolaeth dros newid hinsawdd?	Trosolwg o newid hinsawdd i gynnwys natur gylchol cyfnodau rhewlifol a rhyngrewlifol. Dilysrwydd amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer newid hinsawdd (<i>er enghraifft, cylchoedd coed, disgrifiadau hanesyddol, cofnodion o'r tymheredd</i>) y mae'n rhaid iddi gynnwys creiddiau ia a lefelau CO ² .
5.1.2 Beth sy'n achosi newid hinsawdd?	Llifoedd a storfeydd yn y gylchred carbon a'r prosesau sy'n cysylltu'r storfeydd hyn. Effaith tŷ gwydr. Sut mae gweithgaredd dynol yn effeithio ar y gylchred carbon. Oeri byd-eang oherwydd gweithgaredd folcanig fel un o achosion naturiol newid hinsawdd yn ystod y cyfnod Cwaternaidd.

Section A: Core themes

This is what we need to know

Learners should study **both** of these themes.

Core Theme 5: WEATHER, CLIMATE AND ECOSYSTEMS

Learners should be given the opportunity to develop their understanding of the conceptual framework that supports the depth of study outlined below. They should have the opportunity to develop their understanding of cause and effect; cycles and flows; geographical futures; inequality; interconnectedness (between human and physical environments); place; process and change; and scale when exploring this theme.

Key Idea 5.1: Climate change during the Quaternary period

Key questions	Depth of study
5.1.1 What is the evidence for climate change?	An overview of climate change to include the cyclical nature of glacial and inter-glacial periods. The validity of a range of evidence for climate change (<i>for example, tree rings, historical accounts, temperature records</i>) which must include ice cores and CO ² levels.
5.1.2 What are the causes of climate change?	Flows and stores in the carbon cycle and the processes that link these stores. The greenhouse effect. How human activity affects the carbon cycle. Global cooling due to volcanic activity as one natural cause of climate change during the Quaternary period.

Beth yw ystyr y termau hyn? What's the meaning of these terms?

Newid Hinsawdd yn y Cyfnod Cwaternaidd / Climate Change in the Quaternary Period	
Aerosol Aerosol	
Carbon sinks Suddfannau carbon	
Carbon-neutral Carbon niwtral	
Desertification Diffeithdiro	
Glacials Cyfnodau rhewlifol	
Greenhouse gases (GGs) Nwyon tŷ gwydr	
Inter-glacials Cyfnodau rhyngrewlifol	
Long wave radiation Pelydriad tonfedd hir	
Quaternary Cwaternaidd	
Short wave radiation Pelydriad tonfedd fer	